# Ysgol Treferthyr Newydd - Diweddariad

Cylchlythyr – Chwefror 2023

**Dyma gylchlythyr cryno i roi diweddariad i aelodau staff a rhieni/gwarchodwyr dysgwyr Ysgol Treferthyr am ddatblygiadau'r ysgol newydd a materion perthnasol eraill.**

Rydym yn falch o allu rhannu'r newyddion da bod y gwaith i ddatblygu safle Ysgol Treferthyr newydd wedi cychwyn. Fel y gwyddoch roedd y bwriad gwreiddiol i gychwyn y gwaith llawer ynghynt, ond yn anffodus fe gododd nifer o faterion a oedd yn golygu y bu'n rhaid gohirio'r gwaith am gyfnod.



## Cynllunio

Yn 2021 fe gyflwynwyd Cais Cynllunio ar gyfer y datblygiad yn dilyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o'r cyllid o Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a chaniatâd Cabinet Cyngor Gwynedd i adeiladu Ysgol Treferthyr Newydd.

Ym Medi 2021 derbyniwyd cais gan Wasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd yn gofyn am gynnal dau ddarn o waith ychwanegol cyn y byddant yn gallu ystyried y cais, sef:

- Cynnal archwiliad archeolegol ar y safle.
- Creu a chytuno cynlluniau mwy cynhwysfawr gydag Adran Priffyrdd y Cyngor ar gyfer gwella diogelwch llwybrau cerdded dysgwyr i'r ysgol.

## Archwiliadau archeolegol

- Yn dilyn cynnal archwiliad archeolegol cychwynnol cafodd bedd cist ei ddarganfod, ac o ganlyniad roedd yn rhaid cynnal archwiliad pellach ar ddarnau helaeth o'r safle. Yn dilyn y gwaith pellach yma ni ddarganfyddwyd unrhyw beth arall o bwys hanesyddol sylweddol ar y safle.

- Isod gwelir lluniau o rai o ddysgwyr Ysgol Treferthyr yn cael gwers ar y safle gan yr archeolegwyr.

- Yn dilyn yr archwiliad, cyflwynodd Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd adroddiad i'r Gwasanaeth Cynllunio yn nodi eu bod yn hapus i'r gwaith gychwyn ar y safle, gyda'r amod fod archeolegwyr yn bresennol i wylio'r gwaith tyllu mewn rhai mannau e.e wrth y bedd cist, carreg faen a mynedfa i'r safle.





## Llwybrau diogel i'r ysgol

Yn dilyn cynnal gwaith cynllunio i wella llwybrau cerdded tebygol plant i'r ysgol newydd bwriedir addasu'r ffyrdd canlynol:

**A497**
- Newid cyflymder o gyfeiriad Pwllheli i 30mya ar ôl Porthdy Tanylon ac yna lawr i 20mya cyn cyrraedd yr ysgol.
- Creu man croesi diogel newydd rhwng cyrion y dref a mynedfa'r ysgol.
- Creu palmant gyda ffens rhwng cyrion y dref a mynedfa'r ysgol.

Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
Sustainable Communities for Learning

CYNGOR GWYNEDD

WYNNE CONSTRUCTION
Delivering COLLABORATIVE SUSTAINABLE SOLUTIONS

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Lôn Fêl**

- Gosod mesuriadau tawelu cyflymder (speed bumps) ar hyd Lôn Fêl Uchaf
- Creu croesfan glir i'r ysgol wrth y cyffordd
- Gosod arwyddion bob ochr y bont yn nodi fod y ffordd yn culhau a bod plant yn cerdded
- Gosod mesuriadau tawelu cyflymder i gyfeiriad y môr o'r bont

Derbyniwyd caniatâd cynllunio ym mis Medi 2022 ar ôl derbyn cadarnhad bod yr Adran Priffyrdd yn hapus gyda'r cynlluniau ar gyfer y ffyrdd.



## Camau nesaf

- Mae gwaith wedi cychwyn ar safle'r ysgol newydd
- Er mwyn dathlu hyn, byddwn yn cynnal seremoni bach ar y safle ar **6 Mawrth 2023** pan fydd dysgwyr, pennaeth a chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Treferthyr, ynghyd a chynrychiolwyr eraill o Gricieth a Chyngor Gwynedd yn ymuno â'r datblygwr, Wynne Construction, i dorri'r dywarchen gyntaf.
- Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith yn cymryd tua 16 mis i'w gwblhau.

## Cyllid

- Yn ystod y cyfnod o wneud y gwaith ychwanegol a chyn gallu derbyn caniatâd cynllunio, gwelwyd cynnydd cyson a sylweddol ym mhrisiau deunyddiau, ynni ac ati yn y maes adeiladu. Roedd hyn yn golygu fod y gyllideb wreiddiol o £4.88m bellach yn hollol annigonol ar gyfer y gwaith.
- Yn dilyn derbyn y caniatâd cynllunio cyflwynwyd ceisiadau i Gabinet Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru i gynyddu'r gyllideb i £8.14m ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd.
- Ar 13 Rhagfyr 2022, cafodd y cais ei gymeradwyo gan y Cabinet ac ar 1 Chwefror derbyniwyd lythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru yn cadarnhau eu cefnogaeth i gynyddu'r gyllideb.
- Yn ychwanegol i hyn mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau cyllid ychwanegol drwy grantiau eraill Llywodraeth Cymru er mwyn gallu cynnwys Uned Blynyddoedd Cynnar ac Uned Asesu Anghenion Dysgu Ychwanegol fel rhan o'r datblygiad.



## Dyddiad agor

Yn anffodus mae'r materion a soniwyd amdanynt uchod wedi golygu bod y gwaith ar y safle wedi cychwyn yn hwyrach, ac o ganlyniad bydd angen newid y dyddiad agor ar gyfer yr ysgol newydd. Yn dilyn trafodaethau gyda Chorff Llywodraethol Ysgol Treferthyr, cytunwyd i newid y dyddiad agor i 1 Medi 2024.

**Byddwn yn parhau i'ch diweddaru am y gwaith ar yr ysgol newydd yn ystod y cyfnod adeiladu.**
**Yn y cyfamser mae croeso i chi gysylltu gyda ni drwy e-bostio**

✉ ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru

Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Sustainable Communities for Learning | Cyngor Gwynedd | Wynne Construction | Llywodraeth Cymru Welsh Government